


# Crynodeb o'r Ymgynghoriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



**Rhan 6**

Plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal




**Rheolau a gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r Ddeddf**




**Fersiwn Hawdd ei Darllen**




# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




Mae'r Ddeddf newydd yn ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru.




Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.




Yn ogystal â'r Ddeddf, ceir:




- rheolau. Gelwir y rheolau yn **Rheoliadau**.




- gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r gyfraith, sef **Codau Ymarfer** neu **Ganllawiau Statudol.**




# Sut y gwnaethom y gwaith hwn



Gwnaethom wrando ar arbenigwyr o bob cwr o Gymru.




Yna, gwnaethom nodi ein syniadau.



Nawr rydym am wybod beth yw barn pawb.




Mae sawl Rhan i'r Ddeddf newydd.

Mae pob Rhan yn ymwneud â rhywbeth gwahanol.




Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, rydym yn gofyn i bawb am eu barn ar y rheolau ar gyfer:




**Rhan 4**

Cyfrannu at Daliadau Uniongyrchol a dewis cartref gofal

**a**



**Rhan 5**

Talu am ofal a chymorth




**Rhan 6**

Plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal






## Rhan 9

Cydweithio






## Rhan 10

Gwasanaethau Eirioli






# Rhan 6



Mae Rhan 6 o'r Ddeddf newydd yn ymwneud â phlant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.



**Nid** yw Rhan 6 o'r Ddeddf newydd yn ymwneud â phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt gan y gwasanaethu cymdeithasol.

# Rhan 6

# Y rheolau





Rydym wedi llunio pedair set o reolau. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:



- Cynllunio ar gyfer plentyn mewn gofal, dewis lle y bydd y plentyn yn byw a sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu.



- Plant sy'n gadael gofal.  Mae'r rheolau hyn yn disodli'r Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal).




- Ymweld â phlant dan gadwad



- Plant sydd mewn llety diogel




Mae'r rheolau'n dweud wrth gynghorau lleol am yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud ar gyfer:




- Pobl ifanc sydd am aros gyda'u gofalwr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed



- Plant a phobl ifanc sydd mewn llety diogel



Mae'r rheolau hefyd yn nodi bod unrhyw blentyn mewn llety diogel yn blentyn mewn gofal.




# Rhan 6

# Sut i gydymffurfio â'r Ddeddf newydd



Ceir 8 pennod yn ymwneud â'r canlynol:






1. Cynllunio. Mae'r bennod hon yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r cyngor lleol ei wneud.

   Mae'n cynnwys cynlluniau ar gyfer iechyd ac addysg plentyn.





2. Dewis lle y bydd plentyn mewn gofal yn byw.

   Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau o ran byw gyda rhiant, gofalwyr maeth neu mewn cartref plant.

   Mae'n nodi'r pethau y mae'n rhaid i gyngor lleol eu hystyried cyn dewis. Er enghraifft, mae'n rhaid iddo

ystyried addysg y plentyn.



Mae'n cynnwys rheolau o ran yr hyn y dylid ei nodi'n ysgrifenedig ac wrth bwy y dylid dweud pan fydd plentyn yn mynd i mewn i ofal neu'n symud i leoliad newydd.




Ceir rheolau ychwanegol os bydd y cyngor am symud y plentyn i ardal cyngor arall yng Nghymru, neu'r tu hwnt.





3. Ymweld â'r plentyn, a chyswllt rhwng y plentyn a'i deulu neu ffrindiau.



Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau o ran ymweliadau gan gyngor lleol i weld y plentyn mewn gofal.



Mae hefyd yn cynnwys rheolau o ran dewis ymwelydd annibynnol i ymweld â'r plentyn.



4. Sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu.




Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau o ran cyfarfodydd a chynllunio.



5. Gadael gofal.




Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau o ran cynllunio i rywun adael gofal a rhoi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal nes eu bod yn 25 oed.



Mae'n egluro pwy fydd yn cael cymorth.



Gall cymorth gynnwys help i ddod o hyd i rywle i fyw a chymorth i barhau i astudio neu hyfforddi.




6. Lle y gall rhywun fyw ar ôl iddo droi'n 18 oed.



Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau i'r rhai sy'n gadael gofal sydd am aros gyda'u gofalwr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed.


Rhif: WG-16651

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

"Pan fydda i'n barod"

Cynllunio'r broses o bontio i fyd oedolion ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2012
Ymatebion erbyn: 4 Ionawr 2013

Yng Nghymru, yr enw ar y cynllun hwn yw 'Pan Fydda i'n Barod'.

Mae'r bennod hon yn egluro beth yw 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae'n dweud wrth gynghorau lleol sut i gynllunio'n dda.



7. Llety diogel.




Mae'r bennod hon yn cynnwys rheolau o ran pryd y dylid cadw plentyn yn ddiogel.

Mae'n cynnwys y cyfnod hiraf y gellir cadw plentyn yn ddiogel heb orchymyn llys.



8. Byw yn rhywle fel ysgol neu ysbyty.